**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**21 Tachwedd, 2024**

**Cyfarfod Aml-Leoliad: Siambr Hywel Dda a thrwy ZOOM**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**
Beth Lawton (Cadeirydd), Anwen Jane Davies, Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, Linda Anne Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Morgan, Gareth Coj Parry, John Pughe, Meryl Roberts, Angela Russell ac Einir Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:**
Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Hedd Tomos (Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo), Gareth Wyn Parri (Arweinydd Tîm Comisiynu), Sion Hughes (Cyfarwyddwr Polisi a Chyflawni, Cymdeithas Dai Adra), Claire Shiland (Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Tai Gogledd Cymru), Melville Evans (Prif Weithredwr, Grŵp Cynefin) ac Edward Hughes (Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chymorth, Tai Clwyd Alyn).

**Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorwr Menna Baines a Rheinallt Puw.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR CRAFFU GOFAL** | 21 Tachwedd 2024 |

---

**PWNC**

Eitem 5 : **Y MAES TAI CYMDEITHASOL**

---

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a diolch i'r Adran Dai ac Eiddo am y wybodaeth gynhwysfawr a gyflwynwyd.

2. Gofoyn am wybodaeth ychwanegol gan yr Adran Dai ac Eiddo am:
   - Y niferoedd oedd ar y rhestr aros ar gyfer byngalos yng Ngwynedd ac yn ardal Meirionnydd.
   - Y niferoedd Digartrefedd a faint o'r niferoedd hyn sydd ddim o Wynedd yn wreiddiol.
   - Linc i'r dudalen ar y Fewnrwyd Aelodau sy'n darparu data am y Gofrestr Dai fesul wardiau.
   - Ddata ar y niferoedd sy'n cyfnewid Tai (cydgyfnewid).
   - Ddata am y gofrestr Tai Teg a'i niferoedd.
   - Y ffigyrau Tanfeddiannu.
   - Yr eithriadau i'r Polisi Gosod dros y 5 mlynedd ddiwethaf gan nodi'r rheswm.

3. Datgan pryder am:
   - Y diffyg mewnbwn gan y Cyngor pan fo cyfnewidiadau Tai yn digwydd.
   - Oblygiadau posib y Papur Gwyn i Bolisi Gosod Tai Gwynedd yn y dyfodol.
   - Y diffyg gostyngiad yn niferoedd y Gofrestr Dai Gyffredin dros y deg mlynedd diwethaf.
   - Y niferoedd digartref yn y Sir.
   - Gyfathrebu efo'r Cymdeithasau Tai gan awgrymu i'r Adran Dai ddarparu ffurflen safonol i Aelodau ei gwblhau ar ran tenantiaid pan fo angen gwaith cynnal a chadw gan gynnwys darparu pwyntiau cyswllt gwahanol Adrannau'r cymdeithasau Tai.

4. Derbyn y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cymdeithasau Tai a'u hymatebion i gwestiynau'r aelodau fydd wedi eu crynhoi yng nghofnodion y Pwyllgor.

---

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O blaid | 14 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Gareth Coj Parry am eu bod yn denantiaid Tai Cymdeithasol. Nid oedd y buddiant yn un a oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.